ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014

30 Mehefin 2014

**ISBN digidol 978-1-4734-1771-7**
**© Hawlfraint y Goron 2014**

Cynnwys


**1 Cyflwyniad ....................................................................................................4**

**2 Crynodeb .......................................................................................................5**

2.1 Ymatebwyr i'r ymgynghoriad ..........................................................................5
2.2 Gwaith diweddar .............................................................................................5
2.3 Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymgynghoriad a gwaith diweddar ......................................................................................................6
2.4 Crynodeb o'r newidiadau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 ........................9

**3 Incwm ..........................................................................................................11**

3.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad ......................................................................................................11
3.2 Methodoleg ...................................................................................................12
3.3 Materion heb eu datrys ..................................................................................12
3.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................12
3.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ....................................13
3.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ......................................................................................................13

**4 Cyflogaeth....................................................................................................14**

4.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad ......................................................................................................14
4.2 Methodoleg ...................................................................................................14
4.3 Materion heb eu datrys ..................................................................................15
4.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................15
4.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ....................................15
4.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ......................................................................................................15

**5 Iechyd ..........................................................................................................16**

5.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad ......................................................................................................16
5.2 Methodoleg ...................................................................................................18
5.3 Materion heb eu datrys ..................................................................................18
5.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................18
5.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ....................................18
5.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ......................................................................................................19

**6 Addysg ........................................ 20**

6.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad ........................................ 20
6.2 Methodoleg ........................................ 21
6.3 Materion heb eu datrys ........................................ 21
6.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................ 21
6.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ........................................ 21
6.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ........................................ 21

**7 Mynediad i Wasanaethau ........................................ 22**

7.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad ........................................ 22
7.2 Methodoleg ........................................ 23
7.3 Materion heb eu datrys ........................................ 24
7.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................ 24
7.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ........................................ 24
7.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad / gwaith diweddar ........................................ 24

**8 Diogelwch Cymunedol ........................................ 25**

8.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad 25
8.2 Methodoleg ........................................ 26
8.3 Materion heb eu datrys ........................................ 26
8.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................ 27
8.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ........................................ 27
8.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ........................................ 27

**9 Amgylchedd Ffisegol ........................................ 28**

9.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad 28
9.2 Methodoleg ........................................ 28
9.3 Materion heb eu datrys ........................................ 28
9.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014 ........................................ 29
9.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ........................................ 29
9.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ........................................ 29

**10 Tai ........................................................................................................30**

10.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad ........................................................................................................30
10.2 Methodoleg ........................................................................................................32
10.3 Materion heb eu datrys ........................................................................................................32
10.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALlC 2014 ........................................................................................................32
10.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ........................................................................................................32
10.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ........................................................................................................33

**11 Mynegai Plant a Mynegeion posibl eraill ........................................................................................................34**

11.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad ........................................................................................................34
11.2 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ........................................................................................................34

**12 Cyffredinol arall ........................................................................................................35**

12.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad ........................................................................................................35
12.2 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar ........................................................................................................37

# 1 Cyflwyniad

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny sydd â'r crynoadau uchaf o fathau gwahanol o amddifadedd. Mae'n dod o dan faner Ystadegau Gwladol, ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

Cafodd y Mynegai diweddaraf ei gyhoeddi yn 2011. Mae gwybodaeth am MALlC 2011 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.cymru.gov.uk/ystadegau

Bydd y Mynegai diweddaraf ar gael ddiwedd 2014, gan ddefnyddio'r data diweddaraf a dangosyddion gwell sy'n seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o baratoi'r Mynegeion blaenorol. Rydym yn gweithio tuag at ddyddiad cyhoeddi ym mis Tachwedd 2014.

Rhwng 28 Tachwedd 2013 a 27 Chwefror 2014 cynhaliwyd ymgynghoriad ar y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALlC 2014. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd datgelu'r cynigion ar gyfer y meysydd a'r dangosyddion yn MALlC 2014 er mwyn eu hadolygu'n feirniadol. Buom yn ymgynghori yn ystod y cyfnod hwn er mwyn caniatáu amser i weithredu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, lle bo'n bosibl, cyn cwblhau'r manylion ar gyfer MALlC 2014. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://cymru.gov.uk/consultations/statistics/proposed-indicators-wimd-2014/?lang=cy

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, crynodeb o waith diweddar ac mae'n amlinellu'r newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2 Crynodeb

Nod yr ymgynghoriad MALIC oedd canfod barn y defnyddwyr ar gynigion ar gyfer dangosyddion MALIC 2014. Er mwyn datblygu cynigion y dangosyddion, bu ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda saith grŵp pwnc arbenigol er mwyn adolygu'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011, ac ystyried dangosyddion newydd posibl. Cafodd pynciau a godwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol eu hystyried hefyd. Lle bo'n bosibl, roedd y dangosyddion arfaethedig yn cydymffurfio â'r rhestr o feini prawf ar gyfer dangosyddion. Cafodd manylion llawn am y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2014 eu rhestru yn Adran 5 y ddogfen ymgynghori:
http://cymru.gov.uk/consultations/statistics/proposed-indicators-wimd-2014/?lang=cy

Cynhaliwyd dwy weminar (seminarau ar-lein) yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyflwyniad ar y cynigion a rhoddodd gyfle i ddefnyddwyr ofyn cwestiynau. Yn ogystal â hynny, cafodd cynigion eu rhannu â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru.

### 2.1 Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Cafwyd 29 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau gwahanol gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau'r trydydd sector a nifer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Ceir rhestr lawn o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Cyhoeddir ymatebion unigol yn: http://cymru.gov.uk/consultations/statistics/proposed-indicators-wimd-2014/?lang=cy

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn.

Cafodd barn grwpiau arbenigol megis Grŵp Cynghori allanol MALIC a Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru hefyd ei hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae rhestr o aelodau grŵp cynghori MALIC ar gael yn Atodiad C y ddogfen ymgynghori wreiddiol.

### 2.2 Gwaith diweddar

Cafodd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a barn y grwpiau Maes, Llywio a Chynghori eu hystyried yn ofalus. Cafodd pob awgrym ei ystyried ochr yn ochr â'r meini prawf dangosydd a amlinellir yn Adran 4.2 o'r ddogfen ymgynghori, yn ogystal â'r diffiniadau ar gyfer pob maes. Ystyriwyd felly nad oedd rhai o'r awgrymiadau'n addas.

Yng ngoleuni'r ymatebion, mae gwaith ychwanegol wedi'i wneud i ymchwilio ymhellach i ddangosyddion newydd (e.e. cartrefi nad ydynt ar y grid nwy, cynhwysiant digidol a gofalwyr) ac asesu dichonoldeb y rhain. Ceisiwyd barn grwpiau maes arbenigol MALIC yng ngoleuni'r gwaith ychwanegol hwn, ac mae penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud gan Grŵp llywio MALIC.

Rhoddir crynodeb o waith diweddar ar y pwynt priodol yn adrannau 3-11. Mae papurau technegol sy'n nodi manylion rhywfaint o'r gwaith hwn hefyd ar gael yn:
http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

## 2.3 Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymgynghoriad a gwaith diweddar

Mae adrannau 3-12 o'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Isod ceir crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith diweddar. Mae Adran 2.4 yn rhoi crynodeb o'r gwahaniaethau rhwng dangosyddion ar gyfer MALlC 2011 a MALlC 2014.

**Incwm (Adran 3)**

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer eithrio hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau. Er bod y trafodaethau cychwynnol wedi nodi efallai fod hyn yn bosibl mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi datgan nad yw hyn yn bosibl, felly byddwn yn cynnwys y rhai sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu yn MALlC 2011.

**Cyflogaeth (Adran 4)**

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni chafodd dim newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu.

**Iechyd (Adran 5)**

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer dangosydd ar achosion o Glefydau Cronig lle cafwyd Diagnosis. Am resymau ymarferol, nid yw'n bosibl bellach cynnwys dangosydd o'r fath yn MALlC 2014, ond byddwn yn parhau i ymchwilio i hyn fel ffynhonnell ddata ar gyfer Mynegeion yn y dyfodol.

Er ein bod yn cydnabod cyfraniad pwysig Gofalwyr, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol cynnwys dangosydd ar un is-set o'r boblogaeth (fel gofalwyr). Mae gwaeledd gofalwyr yn cael ei gofnodi drwy ddangosyddion eraill ym maes iechyd.

**Addysg (Adran 6)**

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni chafodd dim newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu.

**Mynediad i Wasanaethau (Adran 7)**

Rydym wedi ymchwilio i'r defnydd o ddata Cyfrifiad 2011 ar berchnogaeth ceir er mwyn pwysoli'r amseroedd teithio cyfartalog ar y ffordd yn ogystal â'r amseroedd teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus. Comisiynwyd tabl data lefel aelwyd o Gyfrifiad 2011 (ar lefel AGEHI) - nifer y ceir mewn aelwyd yn ôl nifer y bobl 17 oed a hŷn mewn aelwyd. Roeddem wedyn wedi edrych ar y tri dewis ar gyfer pwysoli trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. Mae'r dull a ddewiswyd yn amcangyfrif nifer yr oedolion sydd â mynediad i gar ar sail nifer yr oedolion a'r ceir yn yr aelwyd.

Yn ddiweddar archwiliwyd addasrwydd data Ofcom ar gyfer dangosydd ar gynhwysiant digidol a gwelsom y gallai'r data fod yn ffynhonnell addas ar gyfer data band eang llinell sefydlog. Byddwn yn parhau i adolygu dangosyddion posibl ar y cyd â data ynghylch mannau gwan, ac os bydd modd cyfrifo dangosydd addas byddwn yn ei gynnwys yn y maes Mynediad i Wasanaethau.

**Diogelwch Cymunedol (Adran 8)**

Rydym yn nodi'r gefnogaeth am ddangosydd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Rydym wedi cynnal rhywfaint o ddadansoddiad cychwynnol ar addasrwydd defnyddio data Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a byddwn yn cynnwys dangosydd yn MALlC 2014 os pennir bod data a ddaw i law dros yr haf yn addas.

Rydym hefyd yn adolygu'r enwadur ar gyfer y dangosyddion dwyn, difrod troseddol a throseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu. Rydym yn ymchwilio i effaith tynnu elfen poblogaeth yn ystod y dydd yr enwadur, gan mai dim ond o'r Cyfrifiad mae'r data hwn ar gael ac mae'n cynyddu'r enwadur tua un miliwn o bobl yng Nghymru.

**Amgylchedd Ffisegol (Adran 9)**

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni chafodd dim newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu.

**Tai (Adran 10)**

Rydym yn nodi'r pryderon sylweddol a godwyd ynghylch y maes hwn a'r diffyg data ynghylch amddifadedd tai. Roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylid gollwng dangosydd ar wres canolog. Yng ngoleuni cwpl o ymatebion i'r ymgynghoriad, roeddem wedi edrych ar bosibilrwydd cynnwys dangosydd 'cartrefi nad ydynt ar y grid nwy' ond daethom i'r casgliad nad oedd hyn yn addas (gweler adran 10).

Rydym yn cytuno nad yw dangosydd ar ddiffyg gwres canolog yn ddangosydd cryf o amddifadedd tai. Fodd bynnag, nid ydym yn meddwl ei bod yn briodol bod y maes tai ddim ond yn cynnwys un dangosydd (tai gorlawn). Felly byddwn yn cynnwys dangosydd ar 'Gyfran y bobl mewn aelwydydd heb wres canolog', (fel y defnyddiwyd mewn MALlC blaenorol) fel procsi ar gyfer ansawdd tai. I gydnabod y ffaith bod 'diffyg gwres canolog' yn dod yn ddangosydd gwaeth o ansawdd tai dros amser, rydym yn cynnig gostwng ei bwysoliad yn y maes i 1/3 (gyda'r dangosydd tai gorlawn yn cael pwysoliad 2/3).

**Mynegai Plant (Adran 11)**

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau i gyhoeddi Mynegai Plant yn 2015, ac wedyn byddwn yn edrych ar ddatblygu'r cyhoeddiad data dangosydd blynyddol ymhellach.

**Cyffredinol (Adran 12)**

Rydym wedi ystyried y sylwadau niferus a ddaeth i law ynghylch ‘amddifadedd gwledig’. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae pobl amddifad mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod ar fwy o wasgar yn ddaearyddol na phobl mewn ardaloedd trefol. Felly mae pocedi o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod ar raddfa lai o lawer na hyd yn oed y ddaearyddiaeth raddfa fach a ddefnyddir i gynhyrchu MALlC. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei egluro’n glir yng nghanllawiau a dogfennau cyfathrebu MALlC.

Bwriadwn fynd i'r afael â rhai o’r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad drwy gyhoeddi erthygl ystadegol fel rhan o becyn cyhoeddiad MALlC a fydd yn rhoi canllawiau ar sut mae modd defnyddio MALlC a’i ddangosyddion a sut nid oes modd eu defnyddio i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig.

Byddwn yn parhau i baratoi canllawiau cynhwysfawr yn fwy cyffredinol ynghylch sut mae modd defnyddio MALlC ac unrhyw gyfyngiadau.

## 2.4 Crynodeb o'r newidiadau rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014

| | MALlC 2011 | MALlC 2014 |
|---|---|---|
| **Maes Incwm** | | |
| Dangosydd cyfansawdd amddifadedd incwm | Ydy | Ydy |
| **Maes Cyflogaeth** | | |
| Cyfran y boblogaeth oed gwaith sydd ar fudd-daliadau sy'n ymwneud â Chyflogaeth | Ydy | Ydy |
| **Maes Iechyd** | | |
| Achosion o ganser | Ydy | Ydy |
| Salwch Cyfyngus Hirdymor | Ydy | Ydy |
| Pwysau Geni Isel | Ydy | Ydy |
| Cyfradd Marwolaeth Pob Achos | Ydy | Ydy |
| **Maes Addysg** | | |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 | Ydy | Ydy |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 3 | Ydy | Nac ydy |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Ehangach Cyfnod Allweddol | Ydy | Nac ydy |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i Chapio Cyfnod Allweddol 4 | Nac ydy | Ydy |
| Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 Yn Gynhwysol | Nac ydy | Ydy |
| Absenoldeb Ysgol Gynradd | Ydy | Nac ydy |
| Absenoldeb Ysgol Uwchradd | Ydy | Nac ydy |
| Absenoliaeth Ailadroddus | Nac ydy | Ydy |
| Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch | Ydy | Ydy |
| Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau | Ydy | Ydy |
| **Mynediad i wasanaethau** | | |
| Methodoleg – Cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus | Ydy | Ydy |
| Methodoleg – Cynnwys trafnidiaeth breifat | Nac ydy | Ydy |
| Siopau bwyd | Ydy | Ydy |
| Meddygfeydd | Ydy | Ydy |
| Ysgolion Cynradd | Ydy | Ydy |
| Ysgolion Uwchradd | Ydy | Ydy |
| Swyddfa bost | Ydy | Ydy |
| Llyfrgell gyhoeddus | Ydy | Ydy |
| Canolfan hamdden | Ydy | Ydy |
| Deintydd | Ydy | Nac ydy |
| Cyfnewidfa drafnidiaeth | Ydy | Nac ydy |
| Fferyllfeydd | Nac ydy | Ydy |
| Gorsafoedd Petrol (trafnidiaeth breifat yn unig) | Nac ydy | Ydy |
| Band eang llinell sefydlog | Nac ydy | Os yw'n bosibl |

| | MALIC 2011 | MALIC 2014 |
|---|---|---|
| **Diogelwch Cymunedol** | | |
| Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu | Ydy | Ydy |
| Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu | Ydy | Ydy |
| Dwyn a gofnodir gan yr heddlu | Ydy | Ydy |
| Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu | Ydy | Ydy |
| Achosion o dan | Ydy | Ydy |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) | Nac ydy | Os yw'n bosibl |
| Canran yr oedolion sy'n troseddu | Ydy | Os nad yw dangosydd YG yn bosibl |
| Canran y bobl ifanc sy'n troseddu | Ydy | Os nad yw dangosydd YG yn bosibl |
| **Amgylchedd Ffisegol** | | |
| Aelwydydd mewn perygl o lifogydd | Ydy | Ydy |
| Ansawdd Aer – Allyriadau Aer | Ydy | Ydy |
| Ansawdd Aer – Crynodiadau Aer | Ydy | Ydy |
| Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a diwydiannol | Ydy | Ydy |
| **Tai** | | |
| Tai gorlawn – meddiannaeth ystafelloedd | Ydy | Nac ydy |
| Tai gorlawn – meddiannaeth ystafelloedd gwely | Nac ydy | Ydy |
| Diffyg Gwres Canolog | Ydy | Ydy |

Ceir disgrifiad manylach o'r dangosyddion ac esboniad o'r newidiadau ers MALIC 2011 yn y ddogfen ymgynghori:
http://wales.gov.uk/consultations/statistics/proposed-indicators-wimd-2014/?status=closed&lang=cy
Bydd gwybodaeth dechnegol gyflawn hefyd ar gael fel rhan o wybodaeth MALIC 2014.

# 3 Incwm

Mae'r maes incwm yn canolbwyntio ar y gyfran o bobl ag incwm islaw lefel ddiffiniedig.

## 3.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd pob un yn croesawu'r cynnig ar gyfer y maes hwn.

Amcangyfrifon Incwm Ardal Fach: Yn ogystal, nododd yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn hoffter tuag at amcangyfrifon incwm ardal fach, ac roeddent yn cytuno nad oedd Amcangyfrifon Incwm Ardal Fach Paycheck CACI yn addas ar gyfer MALlC. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei bod yn bwriadu cyhoeddi amcangyfrifon incwm ar lefel ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol (cydgrynoadau o tua pum ardal cynnyrch ehangach haen is) yn hydref 2014. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adolygu ar gyfer ei gynnwys ym Mynegeion y dyfodol.

Ceiswyr lloches a gefnogir gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches: Roedd dau ymatebydd  yn anghytuno â chynnwys ceiswyr lloches sy'n cael cymorth y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches, oherwydd bod y lleoliad fel arfer wedi'i ganoli oherwydd cymorth llety a ddarperir gan Awdurdodau Lleol. Cafodd hyn ei ystyried ond oherwydd nad yw ceiswyr lloches yn gymwys am fudd-daliadau eraill yn y maes, ond yn ddifreintiedig o ran incwm, rydym wedi dod i'r casgliad y dylid eu cynnwys yn y maes.

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer eithrio hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau. Er bod trafodaethau cychwynnol wedi nodi y gallai hyn fod yn bosibl, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi datgan nad yw hyn yn bosibl, ac felly byddwn yn cynnwys y rhai sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau yn yr un modd â MALlC 2011.

Cytunodd ymatebwyr y byddai darparu cyfeiriadau i ddata hawlwyr parhaus yr Adran Gwaith a Phensiynau fel gwybodaeth gefndir yn ddefnyddiol. Byddwn yn mynd â hyn rhagddo.

Cafodd tlodi gwledig ei amlygu gan bedwar ymatebydd. Awgrymwyd bod rhai ardaloedd gwledig yn cael budd o gyfradd gyflogaeth uchel, ond cyflogau isel, ac felly y dylid cynnwys mesur ar gyflogau. Awgrymwyd y dylai dangosydd ar gost byw gan gynnwys costau trafnidiaeth gael ei gynnwys yn y maes. Os nad yw'n bosibl fel dangosydd, awgrymwyd y byddai'n darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol. Awgrymodd dau ymatebydd fod y nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau yn is mewn ardaloedd gwledig. Nododd un ymatebydd fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig, sy'n golygu llai o sicrwydd o ran cyflog a swyddi.

Gweler Adran 12, Cyffredinol Arall, ar gyfer cynlluniau'r dyfodol ar gyfer gwaith cyffredinol ar dlodi mewn ardaloedd gwledig.

Budd-daliadau eraill: Awgrymodd un ymatebydd y dylai Budd-dal Tai gael ei gynnwys, am ei fod yn destun prawf modd ac yn cael ei gynnwys mewn credyd cynhwysol. Trafodwyd hyn â'r grŵp maes a oedd yn teimlo y byddai'n well eithrio hyd nes y bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai Taliad Annibyniaeth Bersonol a Lwfans Gofalwyr gael eu cynnwys. Nodwyd nad yw'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn destun prawf modd, felly nid fyddai'n addas ar gyfer y maes. Er bod gan lwfans gofalwyr elfen sy'n seiliedig ar brawf modd, cytunwyd na ddylid ei gynnwys yn MALlC 2014 ar sail egwyddor o gyn lleied â phosibl o newid (fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori).

## 3.2 Methodoleg

Cwestiynodd un ymatebydd a ddylai dangosydd y maes hwn gael ei safoni ar sail oedran a rhyw. Ar ôl cael trafodaeth, nodwyd er bod safoni ar sail rhyw yn ddefnyddiol mewn ambell gyd-destun, ni fyddai'n berthnasol yn y cyd-destun hwn. Pe bai'r maes yn cael ei safoni ar sail oedran a rhyw, yna byddai'n mesur rhywbeth nad yw'n cyd-fynd â'r diffiniad o'r maes, sef pobl ag incwm islaw lefel ddiffiniedig.

Nododd un ymatebydd na ddylai poblogaeth myfyrwyr gael ei chynnwys yn yr enwadur ar gyfer y maes. Credwn nad yw'n briodol defnyddio is-grŵp o'r boblogaeth ar gyfer yr enwadur hwn, oherwydd mewn ardaloedd lle ceir llawer o fyfyrwyr gallai'r maes gynnwys nifer fechan iawn o bobl. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â meysydd eraill.

Cwestiynodd un ymatebydd a oedd credyd treth gwaith wedi'i gynnwys. Rydym wedi diwygio geiriad y dangosydd i egluro bod y rhai sy'n cael Credydau Treth Plant a chredydau Treth Gwaith wedi'u cynnwys.

## 3.3 Materion heb eu datrys

Nid oes unrhyw ddangosyddion heb eu datrys ar gyfer y maes hwn.

## 3.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALlC 2014

Mae'r maes Incwm yn cynnwys dangosydd cyfansawdd sengl, amddifadedd incwm, wedi'i gyfrifo o'r tair elfen ganlynol:

(a) Y ganran sy'n derbyn budd-daliadau seiliedig ar incwm

Mae'r dangosydd hwn yn cyfuno cyfanswm cyfartalog blynyddol (Chwefror, Mai, Awst, Tachwedd) hawlwyr Cymhorthdal Incwm (IS), hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig (JSA), hawlwyr Credyd Pensiwn, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (ESA) a nifer y dibynyddion sydd gan hawlwyr IS, JSA, PC, ESA, oll wedi'u rhannu â chyfanswm y boblogaeth. Daw'r data o Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (WPLS).

(b) Nifer y plant ac oedolion mewn teuluoedd sy'n derbyn Credydau Treth ac sydd ag incwm sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol ar gyfer Cymru (Cyn Costau Tai)

Ychwanegir pobl sy'n hawlio'r Credyd Treth Plant a'r Credyd Treth i Oedolion. Daw'r data o Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

(c) Ceiswyr Lloches sy'n cael cymorth NASS

Mae nifer y Ceiswyr Lloches sy’n cael cymorth gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) ar ddiwedd Rhagfyr 2010 hefyd yn cael eu hychwanegu at y dangosydd hwn.

Mae'r uchod yn cyfrif unigolion unigryw (h.y. dim ond unwaith y mae rhai sy'n hawlio budd-daliadau lluosog yn cael eu cyfrif). Gellir crynhoi a chyfleu’r tair elfen fel canran o gyfanswm poblogaeth AGEHI.

## 3.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Amcangyfrifon incwm ardal fach
Hawlwyr credyd cynhwysol

## 3.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

O ganlyniad i drafodaethau pellach gyda darparwyr data, bydd y dangosydd hwn nawr yn cynnwys y rheini ar Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau. Mae hyn yn cyd-fynd â’r dull gweithredu yn MALlC 2011.

# 4 Cyflogaeth

Diben y maes cyflogaeth yw cofnodi'r diffyg cyflogaeth. Mae'n cynnwys y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael ei heithrio'n anwirfoddol o waith, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd gwaeledd neu sy'n ddi-waith ond yn chwilio'n ddyfal am swydd.

## 4.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

O'r 10 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunodd y cwbl â'r cynnig ar gyfer y maes.

Nododd dau ymatebydd yn ychwanegol eu bod yn cytuno â dileu Rhaglen y Fargen/Gwaith Newydd o'r dangosydd cyfansawdd.

Cytunodd ymatebwyr y byddai darparu cyfeiriadau i ddata hawlwyr parhaus yr Adran Gwaith a Phensiynau fel gwybodaeth gefndir yn ddefnyddiol. Nododd un ymatebydd y byddai data cyfeirio ar aelwydydd heb waith yn berthnasol hefyd. Nododd un ymatebydd y byddai dangosydd ar y cyflog byw yn briodol ar gyfer y maes hwn. Nododd tri atebydd fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig, sy'n golygu llai o sicrwydd o ran cyflog a swyddi. Awgrymodd tri ymatebydd fod y nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau yn is mewn ardaloedd gwledig.

Ymhlith y dangosyddion eraill a awgrymwyd roedd: nifer y swyddi gwag; unigolion ar gontractau dim oriau; unigolion sy'n gwneud mwy nag un swydd; unigolion hunangyflogedig sy'n derbyn incwm isel; a mynediad i Ganolfan Byd Gwaith. Awgrymodd un ymatebydd y dylid edrych ar ‘dangyflogi’ ar gyfer MALIC yn y dyfodol.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion hyn. Byddwn yn cyfeirio ffynonellau data perthnasol fel rhan o adroddiadau MALIC. Rydym yn cydnabod y sylwadau a oedd yn ymwneud ag awgrymiadau bod llai yn hawlio budd-daliadau mewn ardaloedd gwledig, ond nid ydym yn gwybod am dystiolaeth gadarn i gefnogi hyn. Nid yw dangosyddion eraill e.e. contractau dim oriau ar gael ar y lefel ardal fach.

## 4.2 Methodoleg

Cwestiynodd un ymatebydd a ddylai dangosydd y maes hwn gael ei safoni ar sail oedran a rhyw. Ar ôl cael trafodaeth, nodwyd er bod safoni ar sail oedran a rhyw yn ddefnyddiol mewn ambell gyd-destun, na fyddai’n berthnasol yn y cyd-destun hwn. Pe bai'r maes yn cael ei safoni ar sail oedran a rhyw, yna byddai'n mesur rhywbeth nad yw'n cyd-fynd â'r diffiniad o'r maes, sef diffyg cyflogaeth yn y boblogaeth sy'n gweithio.

Nododd un ymatebydd na ddylai poblogaeth myfyrwyr gael ei chynnwys yn yr enwadur ar gyfer y maes. Cytunwyd nad yw'n briodol defnyddio is-grŵp o'r boblogaeth ar gyfer yr enwadur hwn, oherwydd gallai arwain at sefyllfa lle mae ardaloedd myfyrwyr â llond llaw o'r rhai nad ydynt yn fyfyrwyr yn un o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf o ran cyflogaeth yng Nghymru. Nid ystyriwyd bod hyn yn anghyson â meysydd eraill, er enghraifft: nid yw'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn gymwys am fudd-dal diweithdra ond maent yn dal yn yr enwadur ym maes cyflogaeth.

## 4.3 Materion heb eu datrys

Nid oes unrhyw ddangosyddion heb eu datrys ar gyfer y maes hwn.

## 4.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014

Cyfrifir y dangosydd budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth trwy gyfri'r unigolion unigryw (h.y. dim ond unwaith y caiff unigolion sy'n hawlio budd-daliadau lluosog eu cyfrif) sy'n gallu hawlio:

- Budd-dal analluogrwydd (yn disodli Lwfans Anabledd Difrifol);
- Lwfans Ceiswyr Gwaith (JSA); a
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA).

Mae'r dangosydd hwn yn cael ei nodi fel canran o boblogaeth oed gweithio yr AGEHI.

## 4.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Hawlwyr credyd cynhwysol

## 4.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni chafodd dim newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu.

# 5 Iechyd

Diben y maes hwn yw mesur diffyg iechyd da.

## 5.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

Yn amodol ar ansawdd data a datblygu data digonol, ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gynnwys dangosydd ar achosion o glefydau cronig lle cafwyd diagnosis?

Roedd bron pob ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi'r egwyddor y byddai dangosydd ar achosion o glefydau cronig lle cafwyd diagnosis fel y cofnodwyd gan feddygfeydd yn ddymunol, er bod sawl un wedi codi'r cwestiwn ynghylch pa glefydau y dylid eu cynnwys, ac a ddylai'r rhain fod â chysylltiadau wedi'u profi ag amddifadedd. Nododd dau ymatebydd yr achosion posibl o dangofnodi cyflyrau'n ymwneud ag iechyd meddwl, oherwydd nid yw pobl bob amser yn rhoi gwybod i'w meddyg teulu amdanynt. Nododd tri ymatebydd y rhwystrau ymarferol sylweddol i gynnwys dangosydd o'r fath yn MALlC 2014.

Dim ond yn ddiweddar y dyfarnwyd y contract ar gyfer y System Ansawdd Data (sydd ar gael i bractisau meddygon teulu yng Nghymru). Nid oes ceisiadau i gael mynediad i'r system hon wedi'u hystyried eto, ac felly ni fyddwn yn gallu asesu cyflawnrwydd, ansawdd a chywirdeb y data hwn cyn llunio MALlC 2014.

Nodwn y cymorth ar gyfer dangosydd o'r fath, a byddwn yn parhau i ymchwilio i hyn fel ffynhonnell ddata bosibl ar gyfer Mynegeion yn y dyfodol.

Yn amodol ar ymchwil bellach, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys dangosydd ar "y gyfran o ofalwyr di-dâl"?

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 13 yn cytuno (o leiaf i ryw raddau) y dylid cynnwys dangosydd o'r fath, roedd pedwar ymatebydd yn erbyn neu nid oeddent yn argyhoeddedig a nododd dau nad oedd digon o wybodaeth yn yr ymgynghoriad i ffurfio barn.

O'r rhai a oedd yn cefnogi cynnwys dangosydd ar ofalwyr, nododd rhai yr effeithiau iechyd ar y gofalwr, a nododd eraill y posibilrwydd o golli incwm a chyfeiriodd un arall at ddewisiadau bywyd cyfyngus (a bod yn amddifad ar y pryd). O'r rhai nad oeddent o blaid neu heb eu hargyhoeddi am gynnwys dangosydd ar ofalwyr, nododd un nad yw'n fesur o iechyd y boblogaeth a nododd un arall y dylai gwaeledd gofalwyr gael ei gofnodi drwy ddangosyddion eraill. Cyfeiriodd dau at newidynnau cymdeithasol cymhleth sy'n annilysu ei ddefnydd mewn Mynegai cymharol '*mae llawer o bobl mewn cymunedau tlotach nad ydynt yn ystyried eu patrymau gofal teuluol mewn ffyrdd a fyddai'n cael eu diffinio'n swyddogol'.* Cododd dau ymatebydd bryderon am ddefnyddio dangosydd ychwanegol o'r Cyfrifiad, am na fyddai'r dangosydd yn cael ei ddiweddaru'n aml.

Er ei fod yn cydnabod gwaith pwysig gofalwyr, cwestiynodd Grŵp cynghori MALlC y rhesymeg dros ganolbwyntio ar ofalwyr yn hytrach nag is-setiau eraill o'r boblogaeth. Roeddent hefyd yn teimlo bod gwaeledd gofalwyr yn cael ei gofnodi drwy ddangosyddion eraill, ac na ddylem fod yn cyflwyno dangosyddion Cyfrifiad newydd lle roedd modd osgoi hynny.

Rydym wedi ystyried barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r Grŵp cynghori MALIC, ac rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol cynnwys dangosydd ar un is-set o'r boblogaeth fel gofalwyr. Mae gwaeledd gofalwyr yn cael ei gofnodi drwy ddangosyddion eraill ym maes iechyd.

<u>Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig/a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol?</u>

Dangosyddion Arfaethedig
Salwch Cyfyngus Hirdymor: Cododd un ymatebydd bryderon am natur oddrychol y dangosydd hwn ac awgrymodd y dylem ddefnyddio dangosydd ar glefydau cronig hirdymor lle cafwyd diagnosis yn unig. Ar y llaw arall, croesawodd un arall y ffaith ei fod wedi cael ei gynnwys oherwydd efallai na fydd llawer o unigolion â Salwch Cyfyngus Hirdymor mewn cysylltiad â'u meddyg teulu. Gofynnodd un ymatebydd a fydd y rhai sydd â salwch sy'n eu cyfyngu 'i raddau helaeth' yn cael eu pwysoli'n uwch na'r rhai sydd wedi'u cyfyngu 'ychydig'.

Dangosyddion a Wrthodwyd
Tlodi Tanwydd: Awgrymodd un ychwanegu dangosydd Tlodi Tanwydd yn y maes hwn (am ei fod yn cael effaith fawr ar iechyd). Gweler yr adran ar faes Tai.

Ysmygu: Awgrymodd un ymatebydd edrych ar ddangosydd ysmygu yn y dyfodol (er ei fod yn cydnabod na cheir ffynhonnell data ar hyn o bryd).

Data rhagnodi (Iechyd Meddwl): Croesawodd dau ymatebydd y posibilrwydd o gynnwys data rhagnodi ar iechyd meddwl yn y dyfodol. Mynegodd un arall siom nad oedd dangosydd iechyd meddwl yn cael ei gynnig ar hyn o bryd (gan nodi bod Lloegr yn defnyddio amcangyfrifon wedi'u modelu), gydag un arall un awgrymu bod angen rhagor o waith ar ddangosydd iechyd meddwl posibl.

Derbyniadau brys: Cytunodd tri ymatebydd â'r rhesymeg dros beidio â chynnwys hwn fel dangosydd arfaethedig. Cwestiynodd un y rhesymeg dros wrthod gydag un yn awgrymu *'gall mynediad cyfyngedig i wasanaethau ysbytai gael effaith sylweddol ar iechyd a lles dinasyddion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig'* a'r llall yn nodi bod *'amseroedd teithio hwy ac anawsterau o ran cael mynediad i wasanaethau yn brydlon yn rhagfarnu canlyniadau iechyd da i'r rhai y mae angen gwasanaethau iechyd arnynt'.* Awgrymodd un o'r ymatebwyr hyn y dylai dangosydd sy'n mesur yr amser a gymerir i gael mynediad i rai unedau ysbyty (e.e. damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau mamolaeth, iechyd meddwl ac ati.) gael ei gynnwys ym maes iechyd. Awgrymodd yr un ymatebydd ddangosydd ar fynediad i wasanaethau iechyd nad ydynt yn rhai brys. Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd ddangosydd anghydraddoldebau iechyd meddwl oherwydd bod hwn yn effeithio ar ardaloedd gwledig.

Nododd dau fod llawer o bobl â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt mewn cysylltiad â'u meddyg teulu. Awgrymodd dau ymatebydd ei bod yn aneglur o ran pam roedd dangosydd iechyd meddwl wedi'i wrthod, gydag un yn awgrymu defnyddio data arolwg.

Gordewdra ymhlith Plant: Cefnogodd llawer o'r ymatebwyr ymchwilio ymhellach i hyn yn y dyfodol. Nododd un bryder am ddefnyddio dangosydd Gordewdra ymhlith Plant yn y dyfodol (gan awgrymu nad yw hyn yn gyfan gwbl gysylltiedig ag amddifadedd).

Disgwyliad oes iach: Pwysleisiodd un ei bwysigrwydd ac awgrymodd y dylid datblygu dangosydd ar lefel AGEHI.

Dangosyddion Mamolaeth – cefnogodd un ymatebydd ymchwilio ymhellach i hyn yn y dyfodol.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion hyn i gyd. Byddwn yn adolygu sawl un o'r ffynonellau data hyn ar gyfer MALIC yn y dyfodol (gweler isod). O ran gwasanaethau brys, mae'r dangosyddion ym maes Mynediad i Wasanaethau yn cofnodi'r amser a gymerir i gael mynediad i wasanaethau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys meddygfeydd a fferyllfeydd.

## 5.2 Methodoleg

Gofynnodd un ymatebydd a ddylem ddileu safoni ar sail oedran o'r dangosyddion iechyd, ac ystyried digwyddiadau/cyfraddau crai. Y syniad sy'n sail i safoni yw ceisio nodi anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd, h.y. ar ôl addasu ar gyfer y prif ffactor, sef oedran, a yw un maes yn fwy tueddol o wynebu gwaeledd nag un arall? Felly, gan fod hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad maes Iechyd, byddwn yn parhau i ddefnyddio safoni ar sail rhyw ar gyfer y maes hwn. Nid yw safoni ar sail oedran a rhyw yn cael ei ddefnyddio mewn meysydd eraill, ond cyfyngir enwaduron i grwpiau oedran penodol lle y bo'n briodol (e.e. cymwysterau).

## 5.3 Materion heb eu datrys

Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys ar gyfer y maes hwn.

## 5.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014

- Mynychder Canser
- Salwch cyfyngus hirdymor
- Pwysau geni isel
- Cyfradd Marwolaethau o Bob Achos

Cafodd manylion llawn am y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2014 eu rhestru yn Adran 5 y ddogfen ymgynghori:
http://cymru.gov.uk/consultations/statistics/proposed-indicators-wimd-2014/?lang=cy

## 5.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

- Mynychder clefydau cronig lle cafwyd diagnosis (System Ansawdd Data i Feddygon Teulu)
- Data rhagnodi
- Gordewdra ymhlith Plant
- Dangosyddion Mamolaeth

## 5.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer dangosydd ar achosion o Glefydau Cronig lle cafwyd Diagnosis. Am resymau ymarferol, nid yw'n bosibl bellach cynnwys dangosydd o'r fath yn MALIC 2014, ond byddwn yn parhau i ymchwilio i hyn fel ffynhonnell ddata bosibl ar gyfer Mynegeion yn y dyfodol.

Er ein bod yn cydnabod cyfraniad pwysig Gofalwyr, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol cynnwys dangosydd ar un is-set o'r boblogaeth (fel gofalwyr). Mae gwaeledd gofalwyr yn cael ei gofnodi drwy ddangosyddion eraill ym maes iechyd.

# 6 Addysg

Diben y maes hwn yw nodi faint o amddifadedd sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Y nod yw adlewyrchu'r anfantais addysgol o fewn ardal yn nhermau diffyg cymwysterau a sgiliau. Mae'r dangosyddion arfaethedig yn nodi lefelau cyrhaeddiad isel ymhlith plant a phobl ifanc a diffyg cymwysterau ymhlith oedolion.

## 6.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

<u>Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i hepgor y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 3?</u>

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd pob un yn croesawu'r cynnig hwn ac yn cytuno â'r rhesymeg.

<u>Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer dau ddangosydd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?</u>

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd bron pob un yn croesawu'r cynnig ac yn cytuno â'r rhesymeg. Cwestiynodd un ymatebydd y cynnig i newid i sgôr pwyntiau 'wedi'i chapio', gan awgrymu bod "*ysgolion mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd yn fwy tebygol o gofrestru disgyblion ar gyfer llai o gymwysterau…."*

<u>Beth yw'ch barn chi ar newid y dangosydd Absenoldebau Cyffredinol i un sy'n seiliedig ar absenoldeb ailadroddus?</u>

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd pob un yn croesawu'r cynnig hwn ac yn cytuno â'r rhesymeg.

<u>Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig/a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol?</u>

Asesiadau'r Blynyddoedd Cynnar a Phrofion Cenedlaethol: Cytunodd wyth ymatebydd â'n bwriad i barhau i adolygu dangosyddion y Blynyddoedd Cynnar a/neu ddangosyddion Profion Cenedlaethol yn y dyfodol

Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET): Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylid cynnwys dangosydd ar bobl ifanc sy'n NEET (gydag ychydig yn awgrymu y byddai hyn yn well na'r dangosydd AU) neu ei ddatblygu ar gyfer Mynegeion yn y dyfodol.

Dangosydd AU: Cwestiynodd rhai'r ffaith bod y dangosydd AU wedi'i gynnwys oherwydd bod hyn yn rhan o'r darlun yn unig (e.e. o ystyried y cynnydd yn nifer y prentisiaethau).

Awgrymodd rhai ymatebwyr ddangosyddion eraill fel llythrennedd rhifol oedolion, oedolion â chymwysterau lefel 4 ac oedolion sy'n ennill cymwysterau o addysg drydyddol

Rydym wedi ystyried yr ymatebion a byddwn yn adolygu'r data ar y Blynyddoedd Cynnar a Phrofion Cenedlaethol ar gyfer Mynegeion yn y dyfodol. Rydym yn cytuno y byddai NEET yn ddangosydd gwell na chyfranogiad mewn Addysg Uwch. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur NEET ar lefel AGEHI ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i ymchwilio i ddangosyddion eraill yn ymwneud â phobl sy'n symud ymlaen at hyfforddiant ac addysg bellach ar gyfer Mynegai yn y dyfodol.

## 6.2 Methodoleg

Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

## 6.3 Materion heb eu datrys

Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys ar gyfer y maes hwn.

## 6.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALlC 2014

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Sgôr Pwyntiau Wedi'i Chapio Cyfnod Allweddol 4
- Cyfnod Allweddol 2 Lefel 2 Cynhwysol
- Cyfradd absenoldeb ailadroddus
- Canran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed
- Cyfran yr oedolion (25-64 oed) heb gymwysterau

Cafodd manylion llawn am y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALlC 2014 eu rhestru yn Adran 5 y ddogfen ymgynghori:
http://cymru.gov.uk/consultations/statistics/proposed-indicators-wimd-2014/?lang=cy

## 6.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

- Dangosyddion y Blynyddoedd Cynnar
- Profion Cenedlaethol
- Symud ymlaen at hyfforddiant neu addysg bellach

## 6.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni chafodd dim newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu.

# 7 Mynediad i Wasanaethau

Diben y maes hwn yw nodi amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy’n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae’n cwmpasu amddifadedd materol[1] (er enghraifft methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol[2] ar amddifadedd (e.e. methu mynd i weithgareddau ar ôl ysgol).

Nid oedd mesuriad MALlC 2011 o'r maes mynediad i wasanaethau yn ffordd uniongyrchol o fesur amddifadedd y gellir ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, yn wahanol i’r saith maes arall; yn hytrach, roedd yn ffactor cyfrannol sy'n dod yn bwysig fel agwedd ar amddifadedd lluosog. Hynny yw, mae mynediad gwael i wasanaethau yn ffactor a allai ddwysáu mathau eraill o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal. Drwy ystyried trafnidiaeth breifat, ochr yn ochr â thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer MALlC 2014, rydym yn hyderus bod y maes hwn yn fesuriad gwell o fynediad ardal i’r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer byw o ddydd i ddydd.

## 7.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

<u>Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau, yr ychwanegiadau, a’r eithriadau o'r rhestr gwasanaethau arfaethedig ar gyfer MALlC 2014?</u>

O'r rhai a ymatebodd, roedd pob un yn cefnogi cynnwys Fferyllfeydd a Gorsafoedd petrol.

Cynigiwyd dileu Deintyddion a Chyfnewidfeydd Trafnidiaeth o'r rhestr o wasanaethau ar gyfer MALlC 2014 am nad oeddent yn cael eu hystyried yn hanfodol i fyw o ddydd i ddydd.

Deintyddion: Roedd y mwyafrif yn cefnogi dileu deintyddion (chwech o blaid, tri yn erbyn). O'r rhai a oedd yn erbyn, roedd dau yn sgîl natur wledig ac roedd un yn sgîl y cysylltiad rhwng pydredd dannedd a thlodi.

Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth: Roedd y mwyafrif yn cefnogi dileu cyfnewidfeydd Trafnidiaeth (chwech o blaid, un yn erbyn). Roedd yr ymatebydd yn erbyn yn ansicr ynghylch yr effaith ar ardaloedd gwledig.

Nododd dau ymatebydd y dylai'r data a ddefnyddiwyd i bwysoli'r dangosydd, a'r pwysoliadau gael eu cyhoeddi. Cytunwn â'r awgrymiadau hyn – bydd manylion llawn am y dulliau a ddefnyddiwyd yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad technegol.

Pwysoliad: Nododd un ymatebydd nad oedd y pwysoliadau ar gyfer bob gwasanaeth wedi'u crybwyll. Nid yw'r rhain yn bwysoliadau safonol, a byddant yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r allbwn o'r fethodoleg dadansoddiad ffactor. Bydd gwerthoedd hefyd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r adroddiad technegol.

Nododd un ymatebydd y byddai mapiau o'r amseroedd teithio yn ddefnyddiol ac y byddai'r gallu i newid y diwrnod a'r amser yn ddefnyddiol.

---

[1] Mae amddifadedd materol yn golygu diffyg adnoddau ffisegol - bwyd, cysgod a dillad – sy'n angenrheidiol i gynnal safon bywyd penodol.

[2] Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at anallu’r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Nododd un ymatebydd nad oedd digon o wybodaeth, a nododd na ddylai Mynediad i Wasanaethau gael ei drin fel ffactor sy'n cyfrannu at amddifadedd.

Amlygwyd gwasanaethau digidol gan sawl ymateb (pump) fel dangosydd y dylid ei gynnwys yn y maes hwn. Yn ddiweddar archwiliwyd addasrwydd data Ofcom ar gyfer dangosydd ar gynhwysiant digidol a gwelsom y gallai’r data fod yn ffynhonnell addas ar gyfer data band eang llinell sefydlog. Byddwn yn parhau i adolygu dangosyddion posibl ar y cyd â data ynghylch mannau gwan, ac os bydd modd cyfrifo dangosydd addas byddwn yn ei gynnwys yn y maes Mynediad i Wasanaethau.

Cafodd mynediad i: addysg drydyddol; gwasanaethau damweiniau ac achosion brys; Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a safleoedd Diwylliant a Threftadaeth hefyd eu hawgrymu fel dangosyddion.

Cafwyd hefyd awgrym i gynnwys meysydd chwarae yn nangosydd y ganolfan hamdden. Ar hyn o bryd, rydym yn trafod gyda Chwaraeon Cymru pa ddata sydd ar gael.

## 7.2 Methodoleg

Cafodd dau gwestiwn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad i drafod y fethodoleg ar gyfer y maes hwn.

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gyfuno trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat?

Roedd saith o'r deuddeg o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynigion ar gyfer cyfuno trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. Nododd tri o'r pum ymatebydd a oedd yn erbyn y cynigion nad oedd perchnogaeth ceir yn arwydd o gyfoeth; byddai'n well gan y ddau arall is-feysydd ar wahân ar gyfer trafnidiaeth breifat a chyhoeddus.

Cytunwn nad yw perchnogaeth ceir yn arwydd o gyfoeth, a nodwn y bydd perchnogaeth ceir yn cael ei ddefnyddio fel dull pwysoli, i ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau mewn dulliau o drafnidiaeth mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru. Ceir papur ar y fethodoleg y cytunwyd arni ar gyfer cyfrifo'r maes Mynediad i Wasanaethau, gan gynnwys trafodaeth ar feysydd ar wahân ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat, yn:
http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

Beth yw'ch barn chi ar y dull cyfrifo amseroedd teithio dewisol?

Nododd dau ymatebydd gefnogaeth ar gyfer dulliau symlach sy'n cymryd llai o amser. Nododd un ymatebydd y dylai'r dull gwmpasu'r rhan fwyaf o'r llwybrau teithio.

Nododd un ymatebydd nad yw gwerthoedd y Cyfrifiad yn cynrychioli'n ddigonol y bobl agored i niwed sy'n cael eu hatal rhag defnyddio car eu haelwyd am nifer o resymau. Nododd un ymatebydd nad oedd amlder ac amseroedd trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hystyried gan y mesur hwn.

## 7.3 Materion heb eu datrys

Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys ar gyfer y maes hwn

## 7.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014

Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i siop fwyd;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i feddygfa;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i ysgol gynradd;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i ysgol uwchradd;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i swyddfa'r post;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i lyfrgell gyhoeddus;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i ganolfan hamdden;
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i fferyllfa; ac
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth breifat i orsaf betrol.

## 7.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Cynhwysiant digidol

## 7.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad / gwaith diweddar

Rydym wedi ymchwilio i'r defnydd o ddata Cyfrifiad 2011 ar berchnogaeth ceir er mwyn pwysoli'r amseroedd teithio cyfartalog ar y ffordd yn ogystal â'r amseroedd teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus. Comisiynwyd tabl data lefel aelwyd o Gyfrifiad 2011 (ar lefel AGEHI) - nifer y ceir mewn aelwyd yn ôl nifer y bobl 17 oed a hŷn mewn aelwyd. Roeddem wedyn wedi edrych ar dri dewis ar gyfer pwysoli amseroedd teithio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. Mae'r dull a ddewiswyd yn amcangyfrif nifer yr oedolion sydd â mynediad i gar ar sail nifer yr oedolion a cheir yn yr aelwyd. Ceir papur ar y fethodoleg y cytunwyd arni ar gyfer cyfrifo'r maes Mynediad i Wasanaethau yn:
http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

Yn ddiweddar archwiliwyd addasrwydd data Ofcom ar gyfer dangosydd ar gynhwysiant digidol a gwelsom y gallai'r data fod yn ffynhonnell addas ar gyfer data band eang llinell sefydlog. Byddwn yn parhau i adolygu dangosyddion posibl ar y cyd â data ynghylch mannau gwan, ac os bydd modd cyfrifo dangosydd addas byddwn yn ei gynnwys yn y maes Mynediad i Wasanaethau.

# 8 Diogelwch Cymunedol

Nod y maes hwn yw ystyried amddifadedd sy'n gysylltiedig â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cynnwys union brofiad o drosedd a thân, yn ogystal â syniad pobl o ddiogelwch wrth fynd a dod yn yr ardal leol.

## 8.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

<u>Ydych chi'n cytuno â'r dull a ffefrir o gynnwys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (os yw'r data'n ddigon cadarn) neu ddefnyddio data lleoliad troseddwyr (fel MALlC 2011)?</u>

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf (12) yn cytuno y dylid cynnwys y dangosydd, ond nid oedd tri ohonynt yn cefnogi'r dangosydd.

Nododd pedwar o'r rhai a oedd yn cefnogi dangosydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y byddai'n rhaid iddo fod o ansawdd digonol i gael ei gynnwys. Amlygodd llawer fanteision dros y dangosydd Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Troseddu gan nodi *'gellid cynnwys troseddau lluosog gan droseddwyr unigol'*, ac '*mae data troseddwyr ond yn cwmpasu troseddau sydd wedi'u clirio'*.

Nododd y rhai nad oedd yn cefnogi'r dangosydd ei bod yn debygol na roddir gwybod yn llawn am yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd sy'n eu profi amlaf, oherwydd gall fod goddefgarwch tuag atynt. Yn yr un modd, mewn ardaloedd lle ceir lefelau isel o droseddau, gall fod lefelau uchel o roi gwybod am y troseddau hyn.

Rydym wedi nodi'r cymorth ar gyfer y dangosydd, ac ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r set ddata er mwyn sefydlu a yw o ansawdd digonol i'w gynnwys yn MALlC 2014. Os bernir bod ansawdd y set ddata yn addas, caiff ei ddefnyddio yn MALlC 2014. Os nad yw'r data o ansawdd digonol, bydd y dangosyddion pobl ifanc ac oedolion sy'n troseddu, fel y defnyddiwyd yn MALlC 2011, yn cael eu defnyddio yn eu lle.

<u>Beth yw'ch barn chi ar ddefnyddio'r holl ddamweiniau ffyrdd fel dangosydd newydd, gan gymryd nad yw nifer y cerddwyr a'r beicwyr a gafodd eu hanafu yn ddigon cadarn ar gyfer MALlC?</u>

Roedd y rhan fwyaf (naw) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys y dangosydd, er nad oedd tri o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dangosydd. Roedd tri ymatebydd arall yn ansicr, gan nodi nad oeddent yn siŵr a fyddai'n briodol cynnwys pob cerbyd. Ar ôl adolygu'r data nid ydym yn teimlo ei fod yn ddangosydd priodol i fesur o amddifadedd mewn ardal fach. Mae hyn oherwydd bod data ynghylch y nifer a gafodd eu hanafu a'u lladd mewn damweiniau cerbydau yn gyfnewidiol iawn ar lefel ardal fach.

Rydym hefyd wedi ymchwilio i a fyddai dangosydd ar nifer y cerddwyr a beicwyr a gafodd eu hanafu yn unig yn addas, ond daethom i'r casgliad nad yw'r data'n cynnwys gwerthoedd digonol ar lefel ardal fach i alluogi dangosydd priodol.

Bydd papur sy'n crynhoi'r gwaith ar ddangosydd posib damweiniau ffordd yn cael ei gyhoeddi yn fuan yma:
http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Roedd un ymatebydd yn cytuno â chynnwys pob achos o danau, ni roddwyd sylwadau yn erbyn y cynnig hwn.

Gofynnodd un ymatebydd am ganllawiau pellach ar y dangosydd troseddau treisgar. Nodasant y gellir dehongli'r data yn wahanol mewn canol trefi/dinasoedd nad ydynt yn rhai preswyl yn sgîl y trais sy'n gysylltiedig â'r economi nos.

Cymeradwyodd un ymatebydd gynnwys troseddau gwaethygedig ar sail hil a chrefydd, a nodwyd y dylid cynnwys data ar droseddau casineb pellach os yw'r data hyn ar gael. Trafodom gyda'r grwpiau arbenigol a nodwyd y byddai gwybodaeth am droseddau casineb pellach wedi'u cofnodi yn nôl math y drosedd, ac felly wedi'u cynnwys yn y maes yma. Enghraifft o hyn fyddai llofruddiaeth yn sgil tueddiad rhywiol; byddai hwn wedi'i gofnodi fel llofruddiaeth.

Nododd un ymatebydd y gallai data'r arolwg ddarparu data ar ganfyddiad o ddiogelwch. Byddwn yn ystyried darparu cyfeiriadau i ddata o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fel gwybodaeth gefndir.

Nododd un ymatebydd adroddiad Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig (UKSA) ar ansawdd Ystadegau Troseddau a Gofnodwyd[3]. Cydnabyddwn hyn, ac rydym yn monitro adolygiadau ac archwiliadau pellach o ddata am droseddau. Rydym hefyd yn nodi mai dyma'r ffynhonnell ddata orau sydd ar gael ar gyfer data troseddau ardal fach.

## 8.2 Methodoleg

Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar y fethodoleg ar gyfer y maes hwn

## 8.3 Materion heb eu datrys

Rydym yn bwriadu cynnwys dangosydd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn MALlC 2014, os:

a) Ar ôl casglu data 2013/14, tybir y gellir ei gymharu â data 2012/13; a
b) Tybir bod ansawdd y data yn ddigonol.

Byddai'r dangosydd hwn yn cymryd lle'r dangosyddion Oedolion a Phobl Ifanc sy'n troseddu, fel yn MALlC 2011.

Fel rhan o'n gwaith diweddar, mae'r tîm MALlC ar ganol adolygu'r enwaduron ar gyfer y dangosyddion dwyn, difrod troseddol a throseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu. Ar hyn o bryd, mae'r enwadur yn cynnwys y boblogaeth arferol o drigolion a'r boblogaeth gwaith nad ydynt yn byw yno. Rydym yn cynnig tynnu'r boblogaeth waith nad ydynt yn byw yno oddi wrth yr enwadur hwn.

[3] http://www.ons.gov.uk/ons/rel/crime-stats/crime-statistics/period-ending-september-2013/sty-uksa-assessment.html

Mae'r boblogaeth waith nad ydynt yn byw yno yn dabl a gomisiynir o'r Cyfrifiad; felly ni chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd. O Gyfrifiad 2001 roedd y ffigur hwn oddeutu 911,000. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y ffigur ar gyfer poblogaeth Cymru a hefyd mae tua un rhan o dri o boblogaeth Cymru yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Byddwn ni'n ymchwilio i effaith tynnu'r rhan hon o'r enwadur cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gyfer MALlC 2014.

## 8.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALlC 2014

Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu;
Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu;
Lladrad a gofnodir gan yr heddlu;
Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu;
Achosion o dân; a
Naill ai:

a) Ymddygiad gwrthgymdeithasol; neu
b) Canran yr oedolion sy'n troseddu a chanran y bobl ifanc sy'n troseddu

## 8.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Dim.

## 8.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer dangosydd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith dadansoddi cychwynnol ar addasrwydd data Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a byddwn yn bwriadu eu cynnwys yn MALlC 2014 os bydd y data wedi'i ddiweddaru a ddaw i law dros yr haf yn addas.

# 9 Amgylchedd Ffisegol

Diben y maes hwn yw mesur y ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn yr ardal.

## 9.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

<u>Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig/a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol?</u>

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y dangosyddion arfaethedig ar gyfer y maes hwn.
Awgrymodd un y dylid dileu'r maes hwn oherwydd nid yw'r dangosyddion arfaethedig yn fesurau effeithiol o amddifadedd. Awgrymodd dau ymatebydd na ddylai dangosydd llifogydd gael ei gynnwys fel mesur o amddifadedd. Awgrymodd dau ymatebydd nad yw ansawdd aer yn fesur effeithiol o amddifadedd.

Cododd un ymatebydd bryderon bod llygredd aer yn gallu amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall a chyfeiriodd at ddata amser real. Aethpwyd ar drywydd y mater hwn drwy ohebiaeth â'r darparwyr data, a daethom i'r casgliad mai'r dangosyddion a gynigir yw'r dangosyddion mwyaf priodol ar gyfer MALIC. Yn adroddiadau MALIC byddwn yn darparu dolenni i wybodaeth ychwanegol am ddangosyddion ansawdd aer (gan gynnwys amser real).

Mannau gwyrdd: Croesawodd ychydig o'r ymatebwyr gynigion i gynnwys dangosydd pan ddaw data ar gael yn y dyfodol. Awgrymodd dau bwysigrwydd ystyried mynediad nid agosrwydd i fannau gwyrdd (yn aml nid yw mannau gwyrdd yn hygyrch) yn y dyfodol.

Y dangosyddion eraill a awgrymwyd oedd lefel mannau hamdden agored, anfantais tywydd poeth, dangosyddion tirwedd gadarnhaol a mynediad i safle gwastraff trefol lleol.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion uchod. Rydym yn cytuno â mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn fodlon bod y dangosyddion arfaethedig yn briodol ar gyfer mesur amddifadedd o ran yr amgylchedd ffisegol.

## 9.2 Methodoleg

Codwyd ychydig o gwestiynau technegol, manwl. Darparwyd ymateb yn uniongyrchol i'r ymatebydd. Nid oedd y cwestiynau hyn yn effeithio ar y fethodoleg gyffredinol.

## 9.3 Materion heb eu datrys

Rydym ar ganol cytuno ar bwysoliadau newydd a fydd yn cael eu defnyddio i gyfuno'r pedwar categori gwybodaeth perygl llifogydd yn un dangosydd.

## 9.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALlC 2014

- Cyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd - sgôr
- Ansawdd aer amcangyfrifiedig (yn cynnwys dau ddangosydd ar Grynodiad Aer ac Allyriadau Aer Sgôr)
- Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol Sgôr

## 9.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

- Agosrwydd at fan gwyrdd naturiol
- Perygl llifogydd dŵr wyneb

## 9.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni chafodd dim newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu gweithredu.

# 10 Tai

Yn gysyniadol, diben y maes tai yw nodi amddifadedd trwy ddiffyg tai digonol, o ran cyflwr ffisegol y tai, amodau byw ac argaeledd.

Fodd bynnag, mae diffyg data priodol yn golygu nad oes modd mesur amddifadedd tai yn llawn yn ôl y diffiniad hwn.

## 10.1 Dangosyddion Arfaethedig – ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad

Data Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) - Diweddariad
Yn y ddogfen ymgynghori, nodwyd mai'r dewis y byddem yn ei ffafrio fyddai defnyddio sgoriau Gweithdrefnau Asesu Safonol o ddata Data Tystysgrif Perfformiad Ynni fel procsi cyffredinol ar gyfer ansawdd tai. Os gellir datrys materion sy'n ymwneud â chael mynediad i ddata, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu data Tystysgrif Perfformiad Ynni, o ran cwmpas, cysondeb ac ansawdd. Fodd bynnag, ni fydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd i fwydo i mewn i MALlC 2014.

<u>A yw'n briodol mai dim ond un dangosydd (gorlenwi) sydd gan y maes hwn os mai dyna'r oll sydd ar gael?</u>

Cydnabu'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr heriau sylweddol parhaus gyda'r maes hwn ac awgrymwyd y dylai'r diffyg data dibynadwy fod yn bryder mawr i Lywodraeth Cymru. Nododd nifer o'r ymatebwyr y dylem fod yn datblygu dangosyddion ar y lefel AGEHI ar amrywiaeth eang o ddangosyddion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori - gan gynnwys digartrefedd, fforddiadwyedd, ansawdd ac ati. Mynegwyd siom gan ymatebydd arall na chafwyd unrhyw newid ers 2008.

Nododd nifer yr angen am Arolwg Tai. Ar ôl gwneud rhywfaint o waith i ystyried pa fylchau sy'n bodoli yn y dystiolaeth am amodau tai, mae Llywodraeth Cymru nawr yn cynnal prosiect byr i ystyried yn ofalus y dewisiadau ar gyfer llenwi'r bylchau hynny. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar effeithiolrwydd defnyddio data sydd eisoes ar gael, er enghraifft ar effeithlonrwydd ynni, a'r dewisiadau ar gyfer casglu data drwy ryw fath o arolwg. Dylai hyn gynyddu'r posibilrwydd o fod rhagor o ddewisiadau ar gael ar gyfer maes tai MALlC yn y dyfodol.

Nododd pum ymatebydd y byddai'n well ganddynt gadw un dangosydd yn unig ar gyfer y maes (er eu bod yn codi pryderon difrifol am y diffyg data) oherwydd pwysigrwydd tai wrth fesur tlodi a mathau eraill o amddifadedd. Awgrymodd un ostwng pwysoliad y maes.

Roedd pedwar ymatebydd yn erbyn cadw un dangosydd ar gyfer y maes. Awgrymodd dau nad yw'n briodol i faes gynnwys un dangosydd yn unig – yn enwedig os nad yw hyn yn cwmpasu pob agwedd ar y maes. Awgrymodd un y dylid eithrio'r maes hwn hyd nes y bydd dangosyddion gwell ar gael. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y dylid datblygu dangosyddion ar y canlynol: cyflwr ffisegol y tai (wedi'i fodelu ar yr arolwg tai diweddaraf, Arolygon Cyflwr Tai lleol a data arall sydd ar gael), amodau byw (o ddata cartrefi Anodd eu Gwresogi – HEED), digartrefedd a fforddiadwyedd.

Ni ddywedodd llawer o ymatebwyr yn glir a oeddent yn teimlo y dylid cadw un dangosydd ar gyfer y maes, ond mynegodd pob ymatebydd bryderon am y diffyg data yn gyffredinol. Er enghraifft, nododd un ymatebydd y diffyg data priodol, a gwnaeth nifer o awgrymiadau ar gyfer dangosyddion (e.e. tai rhent preifat, tai amlbreswyl, rhestrau aros tai, mynegeion prisiau tai), er iddo nodi'r anhawster o ran datblygu dangosyddion ardal fach mesuradwy priodol ar gyfer MALlC. Awgrymodd y dylid cael ymchwil a thrafodaeth bellach cyn diystyru'r maes (ac archwilio cysylltu data ymhellach).

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig/a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol?

Gorlenwi: O blith y rhai a gyflwynodd sylwadau, roedd pob un yn fodlon ar symud o fesur ‘ystafelloedd’ i ystafelloedd gwely. Nodwyd pryderon bod y dangosydd gorlenwi yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, ac ni fydd modd ei ddiweddaru (yn enwedig oherwydd bydd materion sy'n ymwneud â'r ‘dreth ystafell wely’ yn golygu y gall gorlenwi ddod yn fwy o broblem yn y dyfodol).

Gwres canolog: Cytunodd sawl ymatebydd y dylid hepgor gwres canolog. Nododd un ymatebydd y rhesymeg dros gynnig hepgor gwres canolog, ond roedd yn well ganddo gadw'r dangosydd hyd nes y bydd dangosyddion pellach yn cael eu datblygu. Roedd aelod o’r grŵp cynghori o’r un farn.

Tlodi tanwydd: awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ei gynnwys ac roeddent yn siomedig nad oedd yn cael ei gynnig i’w gynnwys (nid oes dim data ar gael ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, ac mae cysylltiadau agos gyda’r maes incwm). Awgrymodd tri fod hyn yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun gwledig gyda llawer o aelwydydd nad oeddent wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Cyfeiriwyd at waith ymchwil a awgrymodd fod aelwydydd sy'n dibynnu ar olew neu danwydd solet â thebygolrwydd cymharol uwch o fod mewn tlodi tanwydd. Awgrymodd un o'r rhain ein bod yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar y math o wres canolog fel procsi ar gyfer hyn. Awgrymodd un arall ddefnyddio data ar y rhai nad ydynt ar y grid nwy.

Sgoriau Gweithdrefnau Asesu Safonol: Byddai sawl ymatebydd yn cefnogi ei gynnwys, er bod eraill yn ei gwestiynu. Mae un awdurdod lleol yn defnyddio sgoriau Gweithdrefnau Asesu Safonol ar hyn o bryd i fesur ansawdd tai a byddai'n cefnogi ei gynnwys pe bai'n addas. Gwnaeth un arall gwestiynu ei ddefnydd – yn sgîl cyfyngiadau (cwmpas ac ati). Awgrymodd dau arall nad yw sgôr Gweithdrefnau Asesu Safonol yn awgrymu amddifadedd.

Fforddiadwyedd tai: Roedd dau yn anghytuno â'n casgliad bod hwn yn ddangosydd amhriodol ac awgrymwyd ein bod yn datblygu dangosydd addas (ac awgrymodd eraill ei bwysigrwydd). Roeddent yn teimlo bod hwn yn fater penodol mewn ardaloedd gwledig. Gofynnodd sawl ymatebydd a allem ddefnyddio'r un dull â Mynegai Amddifadedd Lluosog Lloegr ar Dai Fforddiadwy (wedi'i fodelu o arolygon).

Rydym wedi ystyried yr ymatebion uchod. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, nid ydym yn credu bod Fforddiadwyedd Tai yn fesur ardal fach briodol. Bydd addasrwydd gwybodaeth effeithlonrwydd ynni yn cael ei asesu ar gyfer y MALIC nesaf.

O ganlyniad i'r sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad, rydym wedi gwneud gwaith yn ddiweddar i asesu addasrwydd dangosydd cartrefi 'nad ydynt ar y grid nwy'. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth nid ydym wedi cael ein darbwyllo bod dangosydd cartrefi 'nad ydynt ar y grid nwy' yn fesuriad priodol o amddifadedd tai. Er ei bod yn debyg y bydd gan gartrefi nad ydynt ar y grid nwy lai o ddewis o ran gwresogi, nid yw hyn o reidrwydd yn wir. Mae tai sengl a fflatiau'n llai tebygol o fod â gwres canolog nwy na mathau eraill o eiddo. Yn benodol, ni fyddai'n briodol cyfri bod nifer o bobl sy'n byw mewn blociau o fflatiau modern sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol (nad ydynt ar y grid nwy) fel bod yn amddifad yng nghyswllt tai. Mae cyfyngiadau ymarferol hefyd gyda'r ffynonellau data a adolygir (e.e. ar sail mesuryddion gweithredol). Mae papur sy'n crynhoi'r gwaith ar y dangosydd posib yma ar gael yma:
http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

Rydym yn cytuno â nifer o'r ymatebwyr nad yw dangosydd ar ddiffyg gwres canolog yn ddangosydd cryf; fodd bynnag rydym hefyd wedi derbyn y pryderon sylweddol a godwyd ynghylch y maes hwn a'r diffyg data am amddifadedd tai. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol mai dim ond un dangosydd sydd yn y maes Tai (tai gorlawn), ac nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol tynnu'r maes tai o MALIC na lleihau ei bwysoliad (o 5 y cant). Felly rydym yn cynnig cynnwys dangosydd ar 'Gyfran y bobl mewn aelwyd heb wres canolog', (fel y defnyddiwyd mewn MALIC blaenorol) fel procsi ar gyfer ansawdd tai, gan gydnabod nad yw'n ddangosydd mor gryf ag y byddem yn ei ddymuno petai data arall ar gael.

## 10.2 Methodoleg

Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

## 10.3 Materion heb eu datrys

Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys ar gyfer y maes hwn.

## 10.4 Crynodeb o ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014

- Cyfran y bobl sy'n byw mewn tai gorlawn (mesuriad ystafelloedd gwely)
- Cyfran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd heb ddim gwres canolog

## 10.5 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

- Gwybodaeth Tystysgrif Perfformiad Ynni
- Digartrefedd
- Ansawdd tai (wedi'i fodelu o unrhyw arolwg cyflwr tai yn y dyfodol os bydd ar gael)

## 10.6 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Rydym yn nodi'r pryderon sylweddol a godwyd ynghylch y maes hwn a'r diffyg data ynghylch amddifadedd tai. Roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylid gollwng dangosydd ar wres canolog. Yng ngoleuni cwpl o ymatebion i'r ymgynghoriad, roeddem wedi edrych ar bosibilrwydd cynnwys dangosydd 'cartrefi nad ydynt ar y grid nwy' ond daethom i'r casgliad nad oedd hyn yn addas (gweler adran 10).

Rydym yn cytuno nad yw dangosydd ar ddiffyg gwres canolog yn ddangosydd cryf o amddifadedd tai. Fodd bynnag, nid ydym yn meddwl ei bod yn briodol bod y maes tai ddim ond yn cynnwys un dangosydd (tai gorlawn). Felly byddwn yn cynnwys dangosydd ar 'Gyfran y bobl mewn aelwydydd heb wres canolog', (fel y defnyddiwyd mewn MALIC blaenorol) fel procsi ar gyfer ansawdd tai. I gydnabod y ffaith bod 'diffyg gwres canolog' yn dod yn ddangosydd gwaeth o ansawdd tai dros amser, rydym yn cynnig gostwng ei bwysoliad yn y maes i 1/3 (gyda'r dangosydd tai gorlawn yn cael pwysoliad 2/3).

# 11 Mynegai Plant a Mynegeion posibl eraill

## 11.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad

Disgrifiwch eich defnydd o'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol.

Nododd pum ymatebydd eu bod wedi defnyddio'r Mynegai Plant. Dyma’r enghreifftiau a nodwyd:

- Gwybodaeth gyd-destunol yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd (Cyngor Sir Gâr);
- Set ddata yng nghyhoeddiad Iechyd Plant a Phobl Ifanc (Iechyd Cyhoeddus Cymru);
- Fel modd o wirio tlodi teulu (Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru);
- Gwybodaeth gyd-destunol yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys); a
- Llunio proffil o ardaloedd (Dinas a Sir Abertawe).

Nodwyd y rhesymau canlynol gan y rhai nad oeddent yn defnyddio'r Mynegai.

- Methodoleg - nid oes gan ardaloedd yr un nifer o blant. Felly, mae'n debygol y gall ardal â mwy o blant ag amddifadedd, o ran niferoedd, fod yn is nag ardal â chyfran uwch o blant ag amddifadedd.
- Mae'r prif Fynegai'n cwmpasu'r rhan fwyaf o seiliau.

Yn y tymor hirach, a ddylid rhoi'r flaenoriaeth i ddadansoddi data sylfaenol MALlC yn hytrach na chynhyrchu'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol?

O'r 13 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd y cyfan bron yr hoffent waith pellach ar ddata dangosyddion MALlC (gan gynnwys rhaniadau o ran oedran a rhyw). Nododd un ymatebydd yr hoffai weld gwaith pellach ar ddadansoddi gwledig.

O'r rhai a oedd yn cefnogi cyhoeddi'r Mynegai plant, nododd un ymatebydd bryder y gallent ei chael yn anodd mesur effeithiau a chanlyniadau yn sgîl Tlodi Plant, a nodwyd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), 2010.

## 11.2 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Ni wnaed unrhyw newidiadau.

# 12 Cyffredinol arall

## 12.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi sylwadau cyffredinol ar MALIC. Rhoddir crynodeb o'r pwyntiau cyffredinol isod.

Natur wledig
Cododd tua deg o'r ymatebwyr fater natur wledig ar ryw ffurf, er nad oedd yr holl sylwadau'n ymwneud yn uniongyrchol â chyfrifo MALIC. Roedd rhai'n cyfeirio'n fwy cyffredinol at fesurau amddifadedd gwledig.

Awgrymodd rhai ymatebwyr nad yw'r Mynegai yn *"adlewyrchu'n ddigonol y sefyllfa o ran amddifadedd mewn ardaloedd gwledig"* ac *"Rydym yn deall bod hwn yn fater dyrys lle nad oes data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gael efallai, ond nid ydym yn meddwl bod amddifadedd gwledig yn cael ei gofnodi, na'i bwysoli yn y mynegai hwn ar hyn o bryd"* Nid yw'n glir bob amser beth mae ymatebwyr yn ei olygu wrth 'amddifadedd gwledig'

Awgrymodd rhai yr angen i adlewyrchu 'amddifadedd gwledig' yn well o fewn y MALIC presennol, gydag ychydig yn awgrymu nad yw'r maes Mynediad i Wasanaethau ar ei ben ei hun yn ddigonol at y diben hwn. Nododd yr ymatebwyr hyn fod *"costau byw yn uwch mewn ardaloedd gwledig"* – mae hyn yn effeithio ar angenrheidiau sylfaenol a thrafnidiaeth (a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus anfynych), *'mae car yn anghenraid yn hytrach na moethusrwydd'* ac ati.

Gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- o fewn y maes Mynediad i Wasanaethau dylid ceisio cynnwys data sy'n cofnodi'r gwahaniaeth o ran cost byw
- Darparu is-rengoedd o ardaloedd trefol a gwledig i alluogi cymariaethau gwell rhwng ardaloedd o nodweddion tebyg
- Cynyddu pwysoliad y maes Mynediad i Wasanaethau
- Gwell ystyriaeth i incwm y cartref/incwm isel yn y maes incwm (yn hytrach na hawl i fudd-daliadau yn unig)
- Ystyried effeithiau tangyflogi
- Ystyried y math o wres canolog ac effeithlonrwydd ynni yn y maes Tai
- Cynnwys dangosyddion sy'n benodol i ardaloedd gwledig (e.e. tai anaddas, tangyflogi, salwch meddwl, diffyg mynediad i gyflogaeth ac ati ym Mynegeion y dyfodol).
- Awgrymodd un ymatebydd fod y nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau yn is mewn ardaloedd gwledig
- Awgrymodd un "efallai fod angen system hollol wahanol i fesur tlodi/amddifadedd gwledig".
- Nododd ychydig o'r ymatebwyr gynhwysiant digidol

Cafodd yr awgrymiadau hyn eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer MALIC, ac yn ystod trafodaethau diweddar. Pan fo'n berthnasol, mae sylwadau wedi cael eu gwneud yn adrannau 3-10.

Roedd rhai o’r pryderon a fynegwyd yn ymwneud â’r ffordd caiff MALlC ei ddefnyddio. Cydnabu rhai ymatebwyr y ffaith nad oes modd defnyddio MALlC i fesur amddifadedd gwledig. Nododd un y perygl bod *‘llawer o raglenni o fewn asiantaethau LlC a'r tu allan iddynt o'r farn mai MALlC yw'r unig fesur o amddifadedd, gan ymestyn ei ddefnydd y tu hwnt i'w ddiben gwreiddiol. Mae’n bwysig felly bod rhyw fesur o amddfadedd gwledig yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael sylw cyfartal gan lunwyr polisïau’.*

gydag un arall yn nodi
*“Mae MALlC yn nodi cyfyngiadau’r dull gweithredu presennol a’r rhagofalon yn erbyn gwneud tybiaethau ehangach, er enghraifft nad yw’r holl bobl amddifad yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad. Fodd bynnag erys y ffaith bod defnyddio MALlC i ddatblygu ymyriadau polisi penodol sydd wedi’u dylunio i fynd i’r afael ag amddifadedd, fel rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, yn gallu arwain at gymunedau lle mae’r boblogaeth yn fwy ar wasgar ac o bosibl yn colli allan ar fanteision ymyriadau o’r fath”*

Croesawodd un ymatebydd gyhoeddi data dangosyddion yn ôl y dosbarthiad gwledig-trefol. Gwnaeth ychydig o'r ymatebwyr groesawu cynigion i fynd i'r afael â chyfyngiadau MALlC mewn perthynas ag amddifadedd gwledig drwy ddadansoddi’r data sylfaenol.

Rydym wedi ystyried y sylwadau niferus a wnaed mewn perthynas ag amddifadedd gwledig. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae pobl ag amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn dueddol o fod yn fwy ar wasgar yn ddaearyddol o gymharu ag ardaloedd trefol. Felly, mae unrhyw bocedi o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod ar raddfa llawer yn llai na hyd yn oed graddfa fach y ddaearyddiaeth a ddefnyddir i gynhyrchu MALlC. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei esbonio'n glir yng nghanllawiau MALlC ac yn y ddogfennaeth gyfathrebu.

Bwriadwn fynd i'r afael â mater amddifadedd gwledig drwy gyhoeddi erthygl ystadegol fel rhan o'r pecyn cyhoeddi MALlC a bydd yn rhoi canllawiau ynghylch sut mae modd defnyddio MALlC a’i ddangosyddion a sut na ddylid eu defnyddio er mwyn dadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr erthygl hon yn:

- Trafod diffiniadau ar gyfer trefol/gwledig ac ‘amddifadedd mewn ardaloedd gwledig’
- Rhoi canllawiau ar sut mae modd defnyddio MALlC a’i ddangosyddion unigol i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig, ar yr un pryd â nodi’r cyfyngiadau
- Egluro a chyfeirio’r data ar MALlC a’i ddangosyddion unigol sydd wedi’u cyhoeddi yn ôl math o setliad (gan gynnwys gwledig a threfol)
- Cynnwys enghreifftiau o sut mae modd dadansoddi data dangosyddion MALlC i ystyried amddifadedd mewn ardaloedd gwledig/trefol (cynnwys dadansoddiad ar gyfer nifer bach o ddangosyddion MALlC fel enghreifftiau)
- Cyfeirio at setiau eraill o ddata a dadansoddiadau defnyddiol.

Bydd yr erthygl hon yn cael ei chyhoeddi fel rhan o becyn cyhoeddiad MALlC a chaiff ei chyhoeddi cyn pen wythnos o brif gyhoeddiad MALlC.

Defnydd o MALlC

Targedu adnoddau: Cododd dau ymatebydd bryderon am gamddefnydd rheolaidd o'r Mynegai i ddyrannu cyllid. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cyfathrebu diben MALlC yn glir a phryd y mae'n briodol ei ddefnyddio. Bwriedir i'r canllawiau a gyhoeddwn ddarparu'r cyngor hwn.

Awgrymodd ymatebydd arall y dylem edrych ar unigolion sy'n wynebu amddifadedd lluosog yn hytrach nag ardaloedd o amddifadedd lluosog. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn gweithio tuag ato ar hyn o bryd, ac rydym o'r farn ei fod yn ddatblygiad allweddol ar gyfer y dyfodol.

Pobl hŷn: Awgrymodd un ymatebydd y dylid llunio Mynegai – neu ddangosyddion o leiaf – i bobl hŷn. Nododd un arall y byddai Mynegai Pobl Hŷn yn fwyaf gwerthfawr pe gallai ymgorffori dangosyddion ychwanegol sy'n berthnasol i bobl hŷn.

Dibynnu ar ddata'r Cyfrifiad: Awgrymodd un ymatebydd nad yw data'r Cyfrifiad yn cael ei ddiweddaru'n aml ac y bydd wedi dyddio cyn bo hir. Awgrymodd na ddylid dibynnu ar unrhyw ddata'r Cyfrifiad yn MALlC yn y dyfodol.

Grwpiau Gwarchodedig: Awgrymodd un ymatebydd y dylid datblygu data dangosyddion o ran grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

## 12.2 Newidiadau a wnaed yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad/gwaith diweddar

Bwriadwn fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad drwy gyhoeddi erthygl ystadegol fel rhan o'r pecyn cyhoeddi MALlC a fydd yn rhoi canllawiau ar sut mae modd defnyddio MALlC a'i ddangosyddion a sut nid oes modd eu defnyddio i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig.

Byddwn yn parhau i baratoi canllawiau cynhwysfawr yn fwy cyffredinol ar sut mae modd defnyddio MALlC ac unrhyw gyfyngiadau.

## Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd i ymgynghoriad MALlC

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cynhalwyr Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Chwarae Teg
Cyngor ar Bopeth Cymru
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Diverse Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Sir Penfro
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys/Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cyngor Sir Powys
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Chwaraeon Cymru
Y Rhwydwaith - mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd, archifau ac orielau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Cynghrair Siarter Tlodi Tanwydd Cymru
Comisiynydd y Gymraeg

ac un ymateb unigol